# COFNODION CYNGOR CYMUNED RHOSYBOL
## Cyfarfod Rhithwith Nos Lun 1af Chwefror 2021 am 7yh.

1. Cyfarfod Rhithwith drwy Galwad Fideo.

2. Presennol
*Wendy Morris Griffiths, Rhian Hayes, Gwynfor Owen, Huw Edwards (Cadeirydd), Richard Jones, Debra Griffiths, Aled Morris Jones*

3. Ymddiheuriadau
*Dim*

4. Datgan Diddordeb
*Dim*

5. Darllen a cymeradwyo cofnodion cyfarfod 7fed Rhagfyr 2020
*GM yn cynnig, RH yn eilio i dderbyn y cofnodion*

6. **Materion yn codi**

i. Cyllideb Cyngor Cymuned Rhosybol 2021/22
CSYM – Trafod Praesept 2021/22
Er gwybodaeth
Praesept 2018/19 £7500
Praesept 2019/20 £7500
Praesept 2020/21 £8000

Cyfrifon 2021/22 – gweler Adroddiad 'Cyllideb 2021/22'
Angen cysidro:

a) Os oes angen talu lwfans i'r aelodau? (Dim wedi ei talu yn hanesyddol)
b) Angen cysidro os oes newidiadau mawr yn gwariant rhagweledig 21/22?
c) Lefel Praesept ar gyfer 2021/22

*AMJ yn cynnig cadw praesept 2021/22 yn £8000 fel 2020/21 oherwydd Covid er mwyn osgoi caledwch, GM yn eilio. Pawb yn gytun ar praesept o £8000 a hefyd dim lwfans i dalu i'r aelodau fel a gwnaed yn flaenorol.*

ii. Trefniadau Archwilio Newydd
Mae Archwilio Cymru yn newid trefn archwilio ac yn bydd trefn i Gyngor Cymuned Rhosybol yn ystod y 3 blynedd nesaf yn:

| | |
|---|---|
| 2020/21 | Archwiliad Sylfaenol |
| 2021/22 | Archwiliad Llawn |
| 2022/23 | Archwiliad Sylfaenol |

Mae'r archwiliad llawn yn edrych ar trafodion o fewn y cyfrifon.

iii. Penodi Archwiliwr Mewnol
Mr Alun Foulkes wedi archwilio 18/19 a 19/20, ydy'r aelodau yn hapus I barhau gyda Mr Foulkes am archwiliad mewnol 20/21?

*Pawb yn gytun i gario ymlaen gyda Mr A Foulkes.*

iv. Cofrestra Tir EM/ Un Llais Cymru, gweithio gyda'i gilydd i hel gwybodaeth am berchnogaeth tir cyrff y sector cyhoeddus erbyn 2025.

Bydd angen i'r Cyngor gofrestru unrhyw dir gyda Cofrestra Tir HM erbyn hyn.
Maent yn hel gwybodaeth ar hyn o bryd i weld beth yw sefeyllfa pob cyngor.

- Beth sydd yn berchen ar Cyngor Cymuned?
- Syd gwyddom ein bod yn berchen ar y tir?
- Oes gan y cyngor cymuned unrhyw cynllunio i unrhyw dir sydd yn berchen arnynt?
- Oes unrhyw dadlau wedi bod dros dir sydd yn berchen gan y cyngor?
- Oes angen wedi bod i wneud cysylltiad gyda Cofrestru Tir EM?
- Ydy CCR wedi ceisio cofrestru tir o gwbl?

*Dim tir gan y cyngor cymuned.*

iv. Cais gan Jane Ashman sydd yn rhan o grwp o wirfoddolwyr sydd am rhoi blodau o gwmpas y colofn gofeb.
Maent wedi codi £450 i'r prosiect hyd yn hyn (CCR wedi rhoi £100).
Mae Dyfed Pritchard wedi cynnig i'r grwp i dynnu cadwyni'r gofeb, ei trwsio, 'sandblastio' a rhoi paent arnynt, mae hefyd am drin y postiau. am ddim i'r grwp.
Ydy'r cyngor cymuned yn hapus i'r gwaith yma barhau?
Pa liw fysa gorau ganddoch i baentio'r postiau a cadwyni? Llwyd ar hyn o bryd.

*Pawb yn gytun i'r gwaith cario ymlaen, cadw i'r un lliw*

v) Llythyrau yn gofyn am gymorth ariannol:
Ambiwlans Awyr Cymru
Radio Ysbyty Gwynedd
Dawns i Bawb
Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru

*AMJ yn cynnig rhoi £100 yr un i Ambiwlans Awyr Cymru a Radio Ysbyty Gwynedd, GM yn eilio,*
*Gohirio penderfyniad ar Dawns i Bawb a'r Eisteddfod am rwan.*

**7. Gwybodaeth**

a) Cyllideb CSYM 2021/22
, Linc isod yn dangos manylion ar weithgareddau ychwanegol a cyfle i rhoi barn ar y gyllideb.
https://www.anglesey.gov.uk/en/Get-involved/Consultations/Current-consultations/Budget-Consultation-202122.aspx
Ebost hefyd wedi ei yrru.

b) Llythyr agored gan Gadeirydd Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon (ebost 29/01/21)
*Adio yr eitem yma i agenda mis Mawrth.*

c) Arolwg Etholiadol ar gyfer Ynys Môn (Ebost 29/10/21)
Cyfle I rhoi barn am y modd y cynhaliwyd yr arolwg etholiadol.
https://surveymonkey.co.uk/r/6RMM2G8

**8. MATERION CYNLLUNIO**

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

Dim

**PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

- FPL/2020/245
  Ty Mawr, Bachau, Llanerchymedd
  Cais llawn ar gyfer adeiladu bondo i gwartheg bwydo.
  Caniatad

- FPL/2019/322
  Christ Church, Rhosybol
  Cais llawn ar gyfer newid defnydd eglwys i annedd gyda adeiladu mynedfa cerbydau newydd
  Pwyllgor Cynllunio 13/01/20 wedi caniatau y cais
  Aelodau yn dangos siom fod y cais wedi ei ganiatau, gan ystyried problemau trafnidiaeth yn ystod angladd ac o gysidro fod beddi ar y safle sydd heb ei marcio

9. **ADRODDIAD ARIANNOL A BILIAU**

a) Caban Mochel, Mair Jones £125 (Hydref i Rhagfyr 2020)

TRYSGLWYN
Ad-daliad am ddau eitem sydd wedi ei talu o gronfa cyngor cymuned Rhosybol
b) £100 cyfraniad tuag at grwp o gwirfoddolwyr i rhoi bocsys blodau yn y pentref.
c) £800 tuag at dorri coed yn capel parc

*AMJ yn cynnig, GM yn eilio talu.*

10. **Unrhyw Fater Arall**

*HE wedi bod yn cyfarfod Un Llais Cymru – Ynys Môn*

*Trafodaeth wedi bod am trafnidiaeth, trefniadau archwilio yn y dyfodol a hefyd wedi codi'r cwestiwn a oes coed yn eiddo i'r cyngor ac ella bod angen Asesiad risg o'r rhain. AMJ dim tir gan y cyngor cymuned.*

*HE yn diolch i bawb am ei cyfraniad ac yn cau'r cyfarfod.*

*Cyfarfod Nesaf – 1af Mawrth 2021*